# Bwletin Awdurdod S4C
**Cyfarfod 338 – 18 Tachwedd 2010**
**S4C, Caerdydd**

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2010.

## 1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 337

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 337.

## 2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad.

Nododd ei fod ef a'r prif weithredwr wedi derbyn gwahoddiad i roi tystiolaeth ger bron y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ym mis Rhagfyr.

Roedd wedi mynychu cynhadledd yn yr Alban ac wedi rhoi cyflwyniad ar waith S4C fel darlledwr iaith leiafrifol.

Roedd wedi recordio cyfweliad ar gyfer rhaglen y Byd Ar Bedwar a oedd i'w ddarlledu heno.

Cyfeiriodd hefyd at erthygl yn y Western Mail gan Carys Evans, Pennaeth Ymchwil S4C a oedd yn cyflwyno'r ffeithiau cywir am ffigyrau gwylio rhaglenni S4C. Diolchodd i Carys am ysgrifennu'r erthygl.

## 3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad.

Nododd ei fod wedi mynychu fforwm a drefnwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i drafod S4C. Cynhaliwyd dadl yn y Cynulliad ddoe. Roedd Cymdeithas yr Iaith wedi trefnu rali ar 6 Tachwedd yng Nghaerdydd i brotestio yn erbyn y toriadau i gyllideb S4C.

Roedd y trafodaethau gyda'r BBC parthed adnewyddu'r bartneriaeth strategol ar gyfer y 10 awr statudol yn parhau. Fe fydd y trafodaethau parthed ariannu S4C o ffi'r drwydded yn cael eu cynnal yn annibynnol o'r trafodaethau parthed y 10 awr.

Cyflwynwyd papur yn amlinellu modelau posibl ar gyfer eu trafod gyda'r DCMS a'r BBC ar gyfer ariannu S4C o ffi'r drwydded o 2013 ymlaen. Roedd swyddogion wedi paratoi modelau a fyddai'n diogelu annibyniaeth S4C, ond a fyddai hefyd yn cynnig atebolrwydd am wariant ffi'r drwydded i Ymddiriedolaeth y BBC. Cafwyd trafodaeth am y modelau a'r camau nesaf. Bydd swyddogion yn gwneud gwaith pellach ar y modelau ac yn parhau i drafod gyda'r DCMS.

## 4. Cyflwyniad gan Syr Jon Shortridge

Cyflwynodd Sir Jon ei adroddiad ar lywodraethiant gorfforaethol S4C. Esboniodd ei fod yn bwysig i'r Awdurdod i feddiannu ei adroddiad a'i argymhellion ac i ddefnyddio ei adroddiad fel sail i ddatblygu system newydd o lywodraethiant gorfforaethol a fyddai'n addas i S4C.

Cafwyd trafodaeth am yr adroddiad a'r camau nesaf. Bydd yr Awdurdod yn ystyried yr argymhellion mewn rhagor o fanylder dros y misoedd nesaf ac yn paratoi ymateb a chynllun gweithredu a fydd yn cael eu cyhoeddi yn llawn maes o law. Bwriedir cyhoeddi'r adroddiad yn llawn hefyd.

Diolchodd y Cadeirydd i Syr Jon am baratoi adroddiad manwl ac am gyfarfod gyda'r aelodau i gyflwyno ei adroddiad.

## 5. Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Comisiynu ei adroddiad.

Cyfeiriodd at yr arlwy raglenni, gan nodi bod arlwy'r hydref wedi bod yn llwyddiannus, ac wedi denu cynulleidfaoedd calonogol. Roedd y Noson Gwylwyr a ddarlledwyd yn fyw yn ddiweddar hefyd wedi bod yn llwyddiant, gyda bron i fil o bobl wedi cysylltu i fynegi barn am arlwy S4C.

## 6. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Staffio
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Cyllid misol
- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth